**<u>Pwyllgor Diwylliant-CC-10-02(p.5)</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **15 Mai 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Interim drafft ar yr Adolygiad Pum Mlynedd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru** |

## Diben

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ar Adroddiad Interim drafft yr Adolygiad Pum Mlynedd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn datgan y dylai'r pwyllgorau pwnc adolygu'n rheolaidd sut y mae cyrff cyhoeddus yn eu meysydd yn cyflawni dyletswyddau cyhoeddus. Ar ôl derbyn fersiwn derfynol yr Adroddiad Interim a sylwadau'r Pwyllgor bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn mynegi barn ar brif gasgliadau'r Adroddiad. Byddant yn penderfynu a ddylai'r Adolygiad symud ymlaen i'r ail gam, ac a ddylid newid y Cylch Gorchwyl.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn mynegi barn ar gasgliadau'r Adroddiad Interim drafft yn Atodiad A, ac a oes angen diwygio'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr ail gam (Adroddiad Interim – Atodiad 5).

## Cefndir

3. Cafodd yr Adolygiad Pum Mlynedd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru ei gomisiynu'n ffurfiol gan y Gweinidog dros Ddiwylliant a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Chwefror 2002, yn dilyn ymgynghori â'r Pwyllgor ar y Cylch Gorchwyl. Cynhelir yr adolygiad gan GCL Management Consultants ac mae ei Adroddiad Interim yn cynnwys cam cyntaf yr Adolygiad. Mae'r cam hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn canlynol:

> "Yng ngoleuni gwrthrychau Siarter Llyfrgell Genedlaethol Cymru, amcanion y Cynulliad Cenedlaethol a modelau arfer da mewn mannau eraill, a oes angen holl swyddogaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru bellach, ac os felly, ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny?"

4. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod yr adroddiad drafft yr adolygydd cyn y caiff fersiwn derfynol yr Adroddiad Interim ei chyflwyno i'r Gweinidogion ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor. Bydd rhan nesaf yr Adolygiad yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â

pherffotmiad, gan gynnwys effeithiolrywdd strategol y Llyfrgell a sut y mae’n mynd ati i lywodraethu’n gorfforaethol. Yn ystod yr ail gam hwn edrychir ar faterion megis effeithlonrwydd gweithredol. Caiff canfyddiadau’r ail gwm hwn eu nodi yn yr Adroddiad Terfynol.

**Yr Adroddiad Interim**

5. Amgaeir yr Adroddiad Interim Drafft yn Atodiad A. Mae’n nodi canfyddiadau’r adolygydd yn dilyn ymgynghoriad pellgyrhaeddol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, yn ogystal â chyda’r Llyfrgell ei hun. Mae’r crynodeb gweithredol (tt 4-9) yn nodi canfyddiadau’r Adroddiad. Y prid gasgliad yw bod angen y swyddogaethau y mae’r Llyfrgell yn eu cyflawni o hyd, ac y dylai’r swyddogaethau hynny barhau i gael eu cyflawni gan Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Serch hynny, gwneir nifer o argymhellion ynghylch newid y modd y caiff y swyddogaethau hynny eu cyflawni. Yn fwyaf arbennig, mae'r adroddiad yn argymell bod strwythur llywodraethu y Llyfrgell yn cael ei newid er mwyn bod yn fwy tryloyw ac yn fwy effeithiol; y gallai'r Llyfrgell weithio fwyfwy gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau allgymorth; ac y dylid mynd i'r afael â chyllido dros y tymor hir, gan gynnwys yr angen am baratoi polisi ar godi arian a denu mwy o gyllid preifat.

**Cydymffurfiaeth**

6. Cynhaliwyd yr Adolygiad yn unol â’r canllawiau sydd wedi’u cyhoeddi ar yr Adolygiad Pum Mlynedd. Yn ogystal â’i gyfranogiad yn yr Adolygiad, ymgynghorwyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar bob mater o bwys.

**Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor**

7. Gofynnir i’r Pwyllgor fynegi barn ar yr Adroddiad Interim drafft, ac ar y cylch gorchwyl ar gyfer ail gam yr Adolygiad.

**Cyswllt**

8. Yr Is-adran Cynllunio Ariannol